

Llawdriniaeth twll clo i dynnu chwarren y brostat i drin rhwystyr prostadol anfalaen

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo i dynnu chwarren y brostat (prostadectomi) yn y GIG i drin pobl â rhwystyr prostadol anfalaen. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha ddynion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio rhwystyr prostadol anfalaen na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chynghor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth dda sy'n dweud pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd ag ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau posibl y driniaeth. Dylent sicrhau bod dynion yn ymwybodol o opsiynau triniaeth amgen hefyd. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r dyn gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylai'r dyn gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r dyn ar ôl y driniaeth.

Dim ond gan lawfeddygon â hyfforddiant arbennig a phrofiad o dynnu chwarren y brostad gan ddefnyddio llawdriniaeth twll clo ddylai wneud y driniaeth hon.

Dim ond os nad ydynt yn addas ar gyfer llawdriniaeth a elwir yn echdoriad trawswrethrol ar gyfer rhwystr prostadol anfalaen (lle y tynnir rhannau o chwarren y brostad drwy'r wrethra) y dylid cynnig y driniaeth hon i ddynion a fyddai'n cael eu hystyried ar gyfer llawdriniaeth agored i dynnu chwarren y brostad ar gyfer rhwystr prostadol anfalaen fel arall.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y llawdriniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i storfa wybodaeth ganolog yng Nghofrestrfa Canser ac Archwiliad Adrannau Cymdeithas Llawfeddygon Wrolegol Prydain er mwyn gallu cadarnhau diogelwch y driniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser Efallai y bydd NICE yn edrych ar y driniaeth hon eto os daw rhagor o wybodaeth i law.

*Efallai nad dyma
fydd yr unig
driniaeth bosibl ar
gyfer rhwystr
prostadol anfalaen.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha opsiynau
triniaeth eraill sydd
ar gael.*

Trin rhwystr prostadol anfalaen drwy dynnu chwarren y brostat gan ddefnyddio llawdriniaeth twll clo

Yr enw meddygol ar gyfer y driniaeth hon yw 'prostadectomi laparosgopig ar gyfer rhwystr prostadol anfalaen'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae chwarren y brostat yn amgylchynu allfa pledren dyn. Mae rhwystr prostadol anfalaen yn digwydd pan fydd chwarren y brostat yn mynd yn fwy, gan wasgu'r bibell (yr wrethra) sy'n cludo wrin o'r bledren i flaen y penis. Gall hyn achosi problemau wrth basio wrin.

Gwneir y driniaeth gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Tynnir chwarren y brostat gan ddefnyddio offer arbennig a osodir drwy doriadau bach yn yr abdomen gan ddefnyddio telesgop bach i weld y tu mewn i'r corff. Rhoddir cathetr i mewn i'r bledren drwy'r wrethra yn ystod y llawdriniaeth ac fel arfer fe'i gadewir yno am ychydig ddyddiau. Gall y llawfeddyg ddefnyddio cyfrifiadur (robot) yn ystod y driniaeth hefyd.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau yn ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn, a'r triniaethau amgen, a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a all manylion eich triniaeth gael eu defnyddio i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Disgrifir rhai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE yn fras yma. Edrychodd NICE ar saith astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth lle y cafodd 20 o ddynion lawdriniaeth twll clo ac 20 o ddynion lawdriniaeth agored, graddiwyd symptomau wrinol ar raddfa o 0 i 35 (35 ar gyfer y symptomau gwaethaf). Gwellodd y sgôr cyfartalog yn y grŵp llawdriniaeth twll clo o 21 cyn y driniaeth i 10 ar ei hôl, a gwellodd y sgôr cyfartalog yn y grŵp llawdriniaeth agored o 18 cyn y llawdriniaeth i 7 ar ei hôl. Nododd pedair astudiaeth arall (184 o ddynion) welliant mewn symptomau ar ôl llawdriniaeth twll clo hefyd, gyda gostyngiad mewn sgoriau cyfartalog yn amrywio o 14 pwynt i 23 pwynt.

Yn yr astudiaeth o 40 o ddynion, gwellodd llif wrin yr un faint (18 mililitr [ml] o wrin yr eiliad) ar ôl y ddau fath o driniaeth.

Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol o ran sgoriau symptomau prostat na llif wrin rhwng y driniaeth twll clo a'r driniaeth agored.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Nodwyd mai'r prif ffactorau llwyddiant yw colli llai o waed, arhosiad byrrach yn yr ysbyty, gwell llif wrin a lliniaru symptomau.

Risgiau a phroblemau posibl

Nododd dwy astudiaeth o 60 o ddynion a 40 o ddynion i ddynion a gafodd lawdriniaeth twll clo golli llai o waed (bron 300ml yn llai) na'r rhai gafodd lawdriniaeth agored.

Nododd tair astudiaeth bod angen trallwysiad gwaed ar 7 allan o 54 o ddynion. Mewn astudiaeth o 17 dynion, cafodd un waedu. Yn yr astudiaeth o 40 o ddynion, cafodd un dyn waedu yr oedd angen lawdriniaeth arall ar ei gyfer.

Datblygodd dau allan o 100 o ddynion a 3 allan o 60 o ddynion heintiau wrinol a chafodd un dyn septisemia (haint yn y gwaed). Mewn astudiaeth arall, cafodd un allan o 30 o ddynion haint yn y safle lle y gwnaed toriad yn yr abdomen. Cafodd un dyn o bob un o'r tair astudiaeth (60, 18 a 17 o ddynion) geulad gwaed yn y bledren. Nododd dwy astudiaeth yn cynnwys 38 o ddynion i ddau ohonynt gael achosion o'r wrethra'n culhau, ac mewn astudiaeth arall dioddefodd un dyn allan o 30 o ddynion gan fod agoriad y bledren wedi culhau. Chwe mis ar ôl y llawdriniaeth, dangosodd astudiaeth arall i 41 allan o 60 o ddynion nodi ffrydiad gwrthredol (lle mae'r semen yn llifo yn ôl i'r bledren).

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd cynghorwyr y gallai problemau posibl gynnwys gwaedu, anafiadau rheffrol, culhau agoriad y bledren, anymataliaeth wrinol, wrin yn gollwng o'r bledren a niwed i agoriadau'r wreter (y bibell sy'n cysylltu'r aren â'r bledren).

Rhagor o wybodaeth am rwystr prostadol anfalaen

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn PALS fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'prostadectomi laparosgopig ar gyfer rhwystr prostadol anfalaen'.

Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG176

Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N1728).

Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7853-3

N1746 1P Nov 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.